# YSBRYD A GWIRIONEDD



St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

## CYNLUNN STRATEGOL
## 2025-2029

# Cenhadaeth

**Coleg Catholig i'r gymuned, sy'n mynnu darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch, wedi'i ysbrydoli gan Grist.**

# Gweledigaeth

**I fod yn Goleg Catholig sy'n meithrin twf dysgwyr mewn ysbryd a gwirionedd, gan annog ffydd, doethineb ac uniondeb.**

"Ein gweledigaeth fel coleg Catholig yw cymuned lle bydd pob person yn cael croeso trugarog, ei faethu mewn doethineb, a'i ysbrydoli i ymofyn y gwirionedd. Cydymdrechwn i fod yn oleufa ffydd a dysgeidiaeth, gan feithrin amgylchedd lle gall pŵer trawsffurfiol addysg a dyfroedd bywiol cariad Crist lifo'n rhwydd, gan dorri'r syched am wybodaeth a thwf ysbrydol. Gyda'n gilydd, ymrwymwn i adeiladu dyfodol wedi'i seilio ar wasanaeth, cynwysoldeb, a'r penderfyniad i ddilyn llwybr diwyro at ragoriaeth, gan addoli mewn ysbryd a gwirionedd."

# Datganiad Budd i'r Cyhoedd

Fel Coleg Catholig, rydym yn ymrwymiedig i wasanaethu'r lles cyffredin trwy addysg sy'n gynhwysol, yn cyfoethogi bywyd, ac yn drawsffurfiol. Wedi'i wreiddio yn yr Efengyl a Dysgeidiaeth Gymdeithasol Gatholig, ein cenhadaeth yw i hyrwyddo ffyniant pawb – yn ysbrydol, yn ddeallusol, ac yn gymdeithasol-beth bynnag eu cefndir neu gred. Darparwn addysg o safon uchel sy'n cefnogi datblygiad cyfan pob person, yn enwedig y mwyaf bregus, ac yn cyfrannu at les ein cymuned ehangach. Wrth feithrin diwylliant o urddas, gwasanaeth, cynaliadwyedd a chyd-sefyll, mynnwn gynnig budd nodweddiadol i'r cyhoedd: ffurfiant unigolion sydd nid yn unig yn llwyddiannus yn academaidd ond hefyd yn foesegol gadarn, yn gymdeithasol gyfrifol, ac mewn cyswllt llawn â'r byd.

# Diwylliant

## YSBRYD

Pwysleisio ffydd, gweddi, a thwf ysbrydol fel gweddau sylfaenol ein cymuned.

## GWIRIONEDD

Annog gonestrwydd, doethineb, a dilyn trywydd gwybodaeth a chyfiawnder.

## DEWRDER

Ysbrydoli gwytnwch, beiddgarwch mewn ffydd, a dyfalbarhad wrth wynebu heriau.

## GWASANAETH

Meithrin ymrwymiad at helpu eraill, ar sail cariad a gostyngeiddrwydd.

**Ysbryd a Gwirionedd**

*Ond y mae'r amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y gwir addolwyr yn addoli'r Tad mewn ysbryd a gwirionedd, oherwydd rhai felly y mae'r Tad yn eu ceisio i fod yn addolwyr iddo. Ysbryd yw Duw, a rhaid i'w addolwyr ef addoli mwn ysbryd a gwirionedd. (Ioan 4:23-24)*

**Gwasanaeth**

*Rhaid i'r un mwyaf ohonoch fod yn was i chwi. Darostyngir pwy bynnag fydd yn ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pwy bynnag fydd yn ei ddarostwng ei hun. (Matthew 23:11-22)*

**Dewrder**

*"Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! Oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys ac anis a chwmin, ond gadawsoch heibio bethau trymach y gyfraith- cyfiawnder a thrugaredd a ffyddlondeb. (Matthew 23:23-24)*

# Gwerthoedd

Gwraidd gwerthoedd ein coleg yw'r Ddysgeidiaeth Gymdeithasol Gatholig, sy'n llifo o ddealltwriaeth ddofn o'r person dynol a'r byd a grewyd. Yn Llyfr Genesis, darllenwn bod pob person yn cael ei greu ar ddelw a llun Duw (Genesis 1:27)—ym mhob mesur, gyda gwerth ac urddas anherfynol. Cadarnhawn hefyd i Dduw ddatgan ei fod "yn dda iawn" (Genesis 1:31), ac o'r herwydd fe ddylai gael ei drysori a'i ofalu amdano. Mae'r gwirioneddau hyn yn ysbrydoli'n hymrwymiad ni i gynnal urddas pob unigolyn, i flaenoriaethu anghenion y tlawd a'r bregus, i alluogi cymunedau drwy ddatganoli, i feithrin cydymddibyniad er y lles cyffredin, ac i ofalu am ein cartref cyffredin.

1

## Urddas y Person Dynol

*Cydnabod gwerth cynhenid pob unigolyn, wedi'i greu yn nelw a llun Duw.*

2

## Dewis Blaenoriaethol ar gyfer y Tlawd

*Blaenoriaethu cefnogaeth I'r mwyaf bregus.*

3

## Datganoliaeth

*Galluogi unigolion a chymunedau i wneud penderfyniadau ar lefelau priodol.*

4

## Cydymddibyniad a'r Lles Cyffredin

*Meithrin undod a chydgynhaliaeth.*

5

## Gofal am y Cread

*Stiwardiaeth o'r amgylchedd fel gweithred o ffydd.*

# Colofnau Strategol

1 Atgyfnerthu hunaniaeth Gatholig fel sail y coleg.

2 Mwyhau potensial pawb i ffynnu o fewn ein cymuned.

3 Meithrin ymdeimlad o berthyn, o les, diogelwch a chydymddibyniad o fewn y gymuned.

4 Sicrhau cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol.

# Amcanion



## Cenhadaeth Gristnogol

Gosod hunaniaeth Gatholig ym mhob gwedd o fywyd y coleg.

Mwyhau partneriaethau gyda phrifysgolion, ysgolion, plwyfi a sefydliadau cymdeithas sifil Catholig.

Buddsoddi mewn a datblygu arweinwyr er mwyn meithrin diwylliant o ysbryd, gwirionedd, gwasanaeth a dewrder ar gyfer pawb yn y gymuned.



## Ffurfiant pawb


### Byddwn ni'n:

Sicrhau rhagoriaeth academaidd cyson ar draws pob demograffig.

Datblygu cwricwlwm arloesol a chynhwysfawr ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n eu galluogi i dyfu mewn ffydd.

Buddsoddi mewn ffurfiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff er mwyn hyrwyddo'u tyfiant.

# Cymuned a Phobl



Meithrin cyfleoedd cynhwysol i gynnwys pawb yn llawnder bywyd y coleg, gan greu ymdeimlad o le ac o berthyn, a chan gydnabod statws unigryw Coleg Dewi Sant fel Coleg Catholig Cymreig.

Cynnal iechyd, diogelwch a lles pawb yn ein cymuned.

Sicrhau llywodraethiant ardderchog i gymuned y coleg, gan weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol gyda staff a chynrychiolwyr y dysgwyr.

# Stiwardiaeth Gynaliadwy



## Byddwn ni'n:

Cofleidio arloesedd a chyfleoedd i feithrin twf drwy ddysgu gydol-oes, rhaglenni rhyngwladol a phartneriaethau.

Sicrhau rheolaeth gyfrifol o adnoddau gan ddatblygu arferion moesegol, cynaliadwy a sylwgar.

Creu gofodau sy'n ddiogel, gwneud defnydd o'r technolegau gorau ac ysbrydoli pawb  gydag ymdeimlad o le ac o berthyn.

# Meini Prawf Rhagoriaeth

Mynychiant addoliad cynulliadol

Canlyniadau dysgwyr o'u cymharu â meini prawf cenedlaethol

Dilyniant dysgwyr i ddysgu pellach neu gyflogaeth

Llwyddiannau cyn-fyfyrwyr

Cysylltiadau â sefydliadau cymdeithas sifil Catholig eraill

Adborth llais y dysgwr

Cyfranogiad yng ngweithgareddau'r caplandy

Cysondeb perfformiad ar draws meysydd y cwricwlwm

Gwobrau ac anrhydeddau rhanbarthol a chenedlaethol

Partneriaeth ac ymgysylltiad â'r Archesgobaeth a phlwyfi

Canlyniadau adborth staff

Cwrdd â thargedau recriwtio

Amrywiaethu ffynonellau incwm

Gwytnwch ac hylifedd ariannol

Buddsoddiad adnoddau

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College